# ANDREW WILLIAMS

Mae Andrew Williams wedi bod yn aelod ymroddedig o Glwb Criced Abercynon ers 48 mlynedd, ar ôl ymuno yn 13 oed. Mae ei ymrwymiad gydol oes wedi gweld Andrew yn datblygu o chwaraewr ieuenctid addawol i fod yn unigolyn sy'n ganolog i'r clwb. Ers bron i ddau ddegawd, mae Andrew wedi chwarae rhan hanfodol wrth arwain datblygiad y clwb fel Cadeirydd, gan oruchwylio pob agwedd o fywyd y clwb. Mae'n trefnu gemau a rheoli'r tîm, gan hefyd cynrychioli'r clwb yng nghyfarfodydd Criced Cymru a chyfarfodydd y gynghrair.

Y tu hwnt i'w ddyletswyddau arweinyddiaeth, mae Andrew yn angerddol dros ddatblygu chwaraewyr criced y genhedlaeth nesaf. Mae'n gweithio'n agos gyda'r timau ieuenctid, yn cefnogi rhaglenni All Stars a Dynamos ar gyfer plant 5–11 oed, ac yn ddiweddar mae Andrew wedi helpu i sefydlu tîm menywod. Mae hefyd yn sicrhau cyllid trwy gyfleoedd i noddi'r clwb ac mae'n cysylltu â'r Cyngor ar faterion yn ymwneud â'r cae. Mae Andrew yn cael ei adnabod fel "gwrw" criced, ac mae ei frwdfrydedd, ei wybodaeth a'i ymroddiad yn parhau i ysbrydoli pawb sy'n perthyn i'r clwb.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## MAI 2026